**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**(FFORDD LLANTRISANT, TONYREFAIL)**

**HYSBYSIAD (CROESFAN I GERDDWYR) 2025 A HYSBYSIAD (MESURAU ARAFU TRAFFIG) 2025**

## DATGANIAD O'R RHESYMAU

Yn rhan o gymeradwyaeth cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl arfaethedig ar dir i'r dwyrain o Hafod Wen (cyfeirnod: ***22/0385/10***), cafodd asesiad Llwybrau Mwy Diogel yn y Gymuned ei gynnal yn unol â Deddf Teithio Llesol Cymru 2013, Polisi AW 5 Cynllun Datblygu Lleol 2016-2021 a Pholisi Cynllunio Cymru (PPW).

Nodwyd yn rhan o'r adroddiad dilynol bod angen cyfleusterau croesi ychwanegol i wella cysylltedd ag amwynderau lleol ar gyfer trigolion presennol Hafod Wen, a'r trigolion yn y dyfodol, gan gynnwys Canol Tref Tonyrefail, Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail a'r mannau chwarae y ceir mynediad iddyn nhw drwy Heol Tŷ Llwyd.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'r datblygwr tai wedi ymrwymo i gytundeb Adran 278 o Ddeddf Priffyrdd 1980 i gyflwyno cynigion i sefydlu croesfan sebra i gerddwyr a chael gwared ar y rhwystrau ymwthiol ildio blaenoriaeth ar Ffordd Llantrisant, Tonyrefail. Byddai'r rhwystrau ymwthiol ildio blaenoriaeth yn cael ei ddisodli gyda man croesi anffurfiol, gan wneud cerdded, mynd ar olwynion a beicio yn ddewis mwy deniadol i'r mwyafrif helaeth o bobl, gan leihau dibyniaeth ar ddulliau trafnidiaeth modurol.

Mae'r mesurau yma wedi'u cynnig dan Adran 1 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984 er mwyn hwyluso tramwy cerbydau, atal perygl tebygol a gwella diogelwch ar gyfer holl ddefnyddwyr y briffordd.

**RHONDDA CYNON TAFF COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**(LLANTRISANT ROAD, TONYREFAIL)**

**(PEDESTRIAN CROSSING) NOTICE 2025 AND (TRAFFIC CALMING MEASURES) NOTICE 2025**

## STATEMENT OF REASONS

As part of planning approval for a proposed residential development on land east of Hafod Wen (reference number: ***22/0385/10***), a Safe Routes in the Community assessment was conducted in accordance with the Active Travel Wales (Act) 2013, Policy AW 5 of the Local Development Plan 2016-2021 and Planning Policy Wales (PPW).

It was identified as part of the subsequent report that additional crossing facilities are required to improve connectivity for existing and future residents of Hafod Wen to local amenities, including Tonyrefail Town Centre, Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail and the play areas accessed via Heol Ty Llwyd.

Rhondda Cynon Taff CBC and the housing developer have entered in a Section 278 agreement of the Highways Act 1980 to bring forward proposals to establish a zebra-type pedestrian crossing and remove the priority build-out on Llantrisant Road, Tonyrefail. With the latter being replaced with an informal crossing point, making walking, wheeling and cycling a more attractive option for the vast majority of people, reducing dependency on motorised modes of transportation.

These measures are proposed under Section 1 of the Road Traffic Regulation Act 1984 to facilitate the passage of traffic, prevent the likelihood of danger and improve safety for all highway users